CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
15 Mawrth 2022, Trwy Zoom
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng W Vaughan, A Williams, A Wyn, E S Williams, W Williams, D Roberts, D ap Rhobert, D Rees (Cyngor Sir), G Owen (Clerc).	
YMDDIHEURIADAU: Cyng C McGregor	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan yr Cadeirydd Cyng D Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 15.02.22. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng W Vaughan yn cynnig a Cyng A Williams yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Cydgodfan Bws, Talwrn** – Bydd y lloches newydd yn cael ei gosod 16.03.22
4.2	**Damweiniau Sgwar Talwrn** – Cytunwyd i fynd ymlaen i brynu goleuadau "arafu" sy'n fflachio gan Coeval ar gost o £4260 ynghyd â TAW. Bydd y Clerc hefyd yn gofyn i'r Cyngor Sir os gellir gostwng y cyfyngiad cyflymder o 30 mya i 20mya
4.3	**Carthffosiaeth Talwrn** – Disgwyl ymateb
4.4	**Mynwent Llanddyfnan (tap)** – Disgwyl ymateb
4.5	**Gor-yrru/ildo Talwrn** – Ymateb y Cyngor Sir: *Wedi archwiliad o'r safle nodir fod cyflwr y marciau ffordd ar arwyddion mewn cyflwr da. Mae'r marciau ARAF / SLOW yn glir ar wyneb y ffordd ynghyd ar linell ildio sydd ar wyneb 'anti skid'. Nid oes angen gwaith pellach ar hyn o bryd i gynnal y marciau ffyrdd yma. Cadarnhaf y bod y rhan yma o'r B5109 i'w gynnwys yn yr asesiad ar gyfer parthau 20mya a fydd yn cael eu cyflwyno yn 2023. Nid yw'r mapiau terfynol wedi cael eu cadarnhau eto ond bydd y Cyngor Cymuned yn derbyn ymgynghoriad pellach ar hwn.*
4.6	**Yr Heddlu (mynychu Cyfarfodydd)** - Roedd PCSO i fod i fynychu'r cyfarfod ond methodd â mynychu
	Llofnod……Cadeirydd 19.04.22

4.7	**Tyfiant Maes y Coed – Bodlondeb** – Disgwyl ymateb
4.8	**LLwybrau cyhoeddus** - Mae Cyng E Williams wedi dechrau cerdded y llwybrau troed. Pan fydd wedi'i gwblhau, bydd yn paratoi adroddiad i'r Clerc yn manylu ar y gwaith sydd angen ei wneud.
4.9	**Lamp stryd rhif 6D** - Mae'r bwlb wedi'i ddisodli
4.10	**Biniau halen** - Mae'r biniau bellach wedi'u llenwi â halen
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Priffyrdd
5.1	Biniau halen (gweler 4.10)
5.2	Arwydd “give way” lon Ysgol Talwrn – Ymateb y Cyngor Sir: *Byddwn yn gwneud trefniadau fod yr arwydd ‘Give Way’ a leolir ar ddechrau lôn Ysgol Talwrn yn cael ei newid am un dwyieithog*
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
	Dim
7	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu’r canlynol:
7.1	Anglesey Computer Solutions £345 – cynnal a chadw’r wefan 2022-2024
7.2	Ceisiadau am roddion: Mari Curie ac Ambiwlans Awyr Cymru £100 yr un.
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Enwau lleoedd Cymraeg - Dywedodd y Cyng E Williams ei bod yn bwysig bod enwau lleoedd Cymraeg lleol yn cael eu diogelu. Bydd y Clerc yn cysylltu a Cylch yr Iaith i ofyn beth allwn ni wneud.
9	**MATERION AR GYFER YR AGENDA NESAF**
9.1	Gor-yrru Llangwyllog
9.2	Tyllau ar y Ffordd (Half Way, Talwrn)
9.3	Lon Ceint
9.4	Glasgoed
9.5	Cais am palmant, Talwrn
9.6	Gor-yrru Talwrn
	Llofnod…….Cadeirydd 19.04.22